

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth y 11eg o Ragfyr 2007

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr: T Les Jones (Cadair) – Nantlle; Elwyn Jones-Griffith, Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; Harry Wyn Owen, D Martin Williams, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; Hefina MW Roberts, Richard Evans, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

- 22 Stryd y Dwr, Penygroes . Estyniad bychan llawr cyntaf cefn i greu ystafell ymolchi.
- Hen Iard Lo, Ffordd yr Orsaf, Talysarn – Un ty newydd.

Hysbyswyd y Cyngor o benderfyniadau'r Awdurdodau perthnasol ar geisiadau cynllunio eraill.

CANIATAWYD y ceisiadau canlynol: HG Jones Motors, newid defnydd rhan o gae ar gyfer safle parcio; Cae Emrys, Tynyweirglodd, ymestyn cyfnod dros dro i ddefnyddio'r cae ar gyfer pel-droed; Garej Poveys, newid defnydd o ran o'r modurdy i weithdai; Capel Hyfrydle, Talysarn, addasu'r capel i bedwar fflat.

Mewn ymateb i gais gan y Cyngor Cymuned i newid y math o loches bws sydd dros y ffordd i garej Poveys ym Mhenygroes, mae Cyngor Gwynedd am ychwanegu'r lleoliad at y rhestr aros am loches bws fodiwlwr, blatic.

Derbyniwyd copi o o lythyr gan Gerry Sutcliffe i Hywel Williams AS parthed yfed dan oed. Byddwn yn codi'r mater yma eto pan fydd y Cyngor yn cyfarfod gyda'r Heddlu, a gofyn iddynt gadw llygad mwy manwl ar yr yfed dan oed ac ar y tafarndai.

Derbyniwyd gohebiaeth am ddyfodol gwasanaeth llawfeddygaeth y fron yn Ysbyty Llandudno. Roedd y Cyngor Cymuned yn cefnogi cadw'r uned ar agor gan bod nifer fawr o'r ardal yma yn derbyn triniaeth yno.

Derbyniwyd cwyn bod cwn yn baeddu ar gae Cwting – nid yw'r Cyngor Cymuned yn caniatáu cwn ar y cae chwarae, a byddwn yn cysylltu a Chyngor Gwynedd i gael rhoi arwydd pwrpasol yno. Mae parcio anghyfreithlon ar y strydoedd ym Mhenygroes yn parhau i fod yn broblem, a mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda'r swyddogion parcio yng Nghyngor Gwynedd i geisio gwella'r sefyllfa.

Cynhaliwyd noson wobrwyo cystadleuaeth goleuadau Nadolig y Cyngor Cymuned ar Ionawr y 4ydd yn Neuadd Goffa Penygroes. Diolch yn fawr iawn i Dafydd a Harry am dywys y beiriniaid o amgylch y pentrefi. Derbyniwyd cynnig ger bron y dylid efallai cael dwy gategori y flwyddyn nesaf, sef un ar gyfer tai, a chategori arall ar gyfer siopau a busnesau.

Archwilio Cerrig Beddi

Mae canllawiau Yswiriant y Cyngor yn gorchymyn y dylid archwilio cerrig beddi yn rheolaidd, a bydd cerrig beddi mynwentydd Cyngor Cymuned Llanllyfni yn cael eu harchwilio yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

- Os yw'r garreg fedd yn gadarn, yna dylid ail-edrych arni bod 3-5 mlynedd.
- Os nad oes perygl i iechyd a diogelwch, ond mae arwyddion bod diffygion, neu bod y garreg yn gwyro er enghraifft, mae'n rhaid archwilio yn flynyddol er mwyn gwneud yn siwr nad oes perygl i'r cyhoedd.
- Os nad yw'r garreg yn gadarn, ond eto ddim yn fygythiad dybryd i ddiogelwch y cyhoedd, yna rhaid i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau o fewn tri mis.
- Os yw cyflwr y garreg yn wael iawn, ac yn peri bygythiad i iechyd a diogelwch y cyhoedd, yna rhaid diogelu'r garreg yn syth bin, drwy ei gosod yn fflat neu drwsio o fewn dau ddiwrnod.